**Blaenoriaethu Gorsafoedd Rheilffordd Newydd – Adroddiad Asesu Cam 2, Ebrill 2019**

## Cefndir

1. Er y cydnabyddir mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am fuddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd, mae angen i ni ddatblygu cyfres o brosiectau yng Nghymru fel eu bod ar gam priodol yn eu datblygiad pan fydd cyfleoedd am gyllid yn codi gan Lywodraeth y DU ac fel y gellir eu cyflwyno i'w hystyried a bod ganddynt gyfle gwirioneddol i sicrhau cyllid.

2. Rydym yn derbyn nifer o geisiadau am orsafoedd newydd gan grwpiau rhanddeiliaid. Bydd rhestr o orsafoedd newydd wedi'u blaenoriaethu yn caniatáu i ni gyfeirio adnoddau at y rheini sy'n haeddu ystyriaeth fanylach.

3. Cyflwynwyd cynigion am orsafoedd newydd o amrywiaeth o ffynonellau. Mae dull asesu cymesur wedi cael ei ddatblygu er mwyn pennu pa gynigion sy'n ddichonadwy ac felly'n haeddu gwaith astudio pellach a manylach. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfres o gynlluniau newydd yn yr arfaeth a fydd yn gallu manteisio ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol.

## Methodoleg

4. Mae methodoleg wedi cael ei datblygu er mwyn asesu cynigion am orsafoedd rheilffordd newydd y gellir ei defnyddio mewn ffordd gymesur a chost-effeithlon. Mae'r fethodoleg asesu yn dilyn dull tri cham. Bydd hyn yn golygu y bydd y gwaith drutach o gynhyrchu amcangyfrifon cost am orsaf newydd a modelu amserlenni yn cael ei wneud ar gyfer y blaenoriaethau pennaf yn unig:

   - Cam 1 – Hidlo drwy'r gorsafoedd i ddechrau gan ddefnyddio meini prawf yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ac ystyried nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Gweler Atodiad 1 - Adroddiad Asesu Cam 1, Mai 2017).

   - Cam 2 – Asesiad rhagarweiniol o gryfder yr achos ariannol ac economaidd am orsaf newydd a chyngor gan Network Rail o ran y gallu i gyflawni'r cynllun.

   - Cam 3 – Datblygu ac asesu'r blaenoriaethau pennaf, gan gynnwys Adroddiad Cam 1 WelTAG, achos busnes a phroses GRIP Network Rail ar gyfer llywodraethu prosiectau i fuddsoddi yn y rheilffyrdd.

## Canlyniad Asesiad Cam 1

5. Cytunwyd ar y broses a ddefnyddir i flaenoriaethu cynigion am orsafoedd newydd a'r rhestr fer o orsafoedd i'w hasesu ymhellach ym mis Gorffennaf 2017.

6. Dyma'r gorsafoedd a roddwyd ar y rhestr fer yn ystod asesiad Cam 1:

    - De-ddwyrain Cymru: Melin Trelái/Parc Victoria, Llan-wern, Heol Casnewydd/Rover Way a Llaneirwg.
    - De-orllewin Cymru: Y Cocyd, Glandŵr, Sanclêr
    - Gogledd Cymru: Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd, Gogledd Wrecsam, De Wrecsam, Llangefni
    - Canolbarth Cymru: Bow Street (a ddisodlwyd wedyn gan Carno yn dilyn cyhoeddiad llwyddiannus am gyllid).

**Methodoleg Asesiad Cam 2**

7. Mae Asesiad Cam 2 wedi defnyddio cyngor gan Network Rail ar ystyriaethau gweithredol a'r gallu i gyflawni, yn ogystal â rhagolygon galw am bob gorsaf er mwyn bwydo i mewn i feini prawf am fforddiadwyedd ariannol a'r gallu i gyflawni. Cafodd yr asesiad ei lywio hefyd gan y gwelliannau i hygyrchedd y byddai angen eu gwneud ar gyfer pob cynnig am orsaf newydd, yr effeithiau amgylcheddol posibl ac amcangyfrif o gost gyfalaf lefel uchel.

***Asesiad Rhagarweiniol Network Rail***

8. Mae Network Rail wedi cynnal asesiad cychwynnol ynghylch y gallu i gyflawni ac ystyriaethau gweithredol. Mae'r adroddiad yn ystyried nifer o feini prawf gan gynnwys y lleoliad a nifer y gwasanaethau, manteision gorsaf newydd, ystyriaethau gweithredol, fforddiadwyedd, math o wasanaethau, hyd trenau/platfformau a marchnadoedd a wasanaethir. Mae adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau yn Atodiad 2.

***Rhagolygon Galw ym mhob Gorsaf***

9. Mae model wedi cael ei ddatblygu gan Brifysgol Southampton i ddarparu asesiad safonedig o'r galw ym mhob gorsaf (gweler Atodiad 3). Mae'r model yn darparu dau ragolwg galw ar gyfer pob gorsaf. Yn syml, mae'r rhagolwg cyntaf yn neilltuo'r boblogaeth o bob cod post i'w gorsaf agosaf (dalgylch 'penderfyniaethol'). Mae'r ail yn dosrannu poblogaeth pob cod post i ddeg gorsaf amgen, yn seiliedig ar y tebygolrwydd tybiedig y byddai pob un o'r gorsafoedd hyn yn cael ei dewis (dalgylch 'tebygolrwyddol').

10. Mae'r rhagolygon a geir drwy'r math hwn o fodel yn rhai dangosol a'u diben yw rhoi syniad o hyfywedd tebygol gorsaf arfaethedig mewn safle penodol, yn hytrach na rhagfynegiad manwl o batrymau teithio ar ôl agor gorsaf. Nid yw'r rhagolygon o'r model yn ystyried cyrchfannau teithiau, y cyrchfannau y bydd gorsaf yn eu gwasanaethu na ffactorau lleol annodweddiadol megis stadia chwaraeon neu atyniadau twristiaeth gan na ellir cynrychioli eu heffeithiau ar alw'n ddigonol yn y model. Dylid felly ystyried y canlyniadau (gweler Tabl 1) ar y cyd â gwybodaeth arbenigol am amodau sy'n ymwneud â safle unrhyw orsaf benodol.

**Tabl 1: Crynodeb o'r rhagolygon galw ar y gorsafoedd gan ddefnyddio modelau â dalgylchoedd penderfyniaethol a thebygolrwyddol ar gyfer y flwyddyn sylfaen model (2011/12) a gyda dyrchafiad twf wedi'i gymhwyso (2015/16)**[1]

| Gorsaf Arfaethedig | Rhagfynegiad o nifer y bobl fydd yn cyrraedd/gadael bob blwyddyn | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Dalgylch penderfyniaethol | | Dalgylch tebygolrwyddol | |
| | 2011/2012 | 2015/2016 | 2011/2012 | 2015/2016 |
| Y Cocyd | 106,093 | 117,212 | 130,932 | 144,654 |
| Melin Trelái | 116,133 | 128,304 | 92,137 | 101,793 |
| Llan-wern | 334,951 | 370,054 | 346,411 | 382,715 |
| Heol Casnewydd/Rover Way | 319,390 | 352,862 | 212,388 | 234,591 |
| Glandŵr | 26,407 | 29,174 | 31,348 | 34,633 |
| Sanclêr | 98,306 | 108,608 | 90,362 | 99,832 |
| Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy | 37,361 | 41,276 | 50,685 | 55,997 |
| Gogledd Wrecsam | 56,959 | 62,928 | 64,043 | 70,755 |
| De Wrecsam | 88,882 | 98,197 | 102,859 | 113,639 |
| Llangefni | 241,760 | 267,096 | 225,896 | 249,570 |
| Llaneirwg/Parcffordd Caerdydd | 193,303 | 213,561 | 141,467 | 156,293 |
| Carno | 35,273 | 38,970 | 26,845 | 29,658 |

### *Asesiad Hygyrchedd*

Cynhaliwyd asesiad hygyrchedd gan Trafnidiaeth Cymru i archwilio poblogaethau'r dalgylchoedd yn ôl y rheini sy'n cerdded, yn defnyddio'r bws neu'n gyrru, yn ogystal â newidiadau mewn amserau teithio i'r prif ganolfannau agosaf. Defnyddiwyd hwn i lywio sgoriau'r asesiad.

### *Effaith Amgylcheddol*

Gwnaed gwaith i nodi'r effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys effeithiau ar ardaloedd sensitif lleol a throsolwg o'r effeithiau posibl.

### *Amcangyfrif o gost gyfalaf lefel uchel*

Amcangyfrif o gost lefel uchel adeiladu gorsaf newydd yn seiliedig ar drosolwg eang o raddfa'r gwaith gofynnol a'i gost gan ddefnyddio cyfraddau masnachol a dendrwyd yn ddiweddar am brosiectau tebyg gan Lywodraeth Cymru.

[1]Ffynhonnell: Rhagolygon Galw ar Orsafoedd ar gyfer Cymru, 2017, Atodiad 2

**Canlyniad Asesiad Cam 2**

11. Mae meini prawf Cam 1 wedi cael eu hailddiffinio a'u datblygu ymhellach gan Trafnidiaeth Cymru i lywio'r asesiad o ba gynigion am orsafoedd y dylid eu hystyried yn fanylach. Nodir y meini prawf a ddefnyddiwyd yn Atodiad 4.

12. Cynigir parhau â'r gorsafoedd canlynol yn asesiad Cam 3:

- De-ddwyrain Cymru – Melin Trelái
- De-orllewin Cymru – Sanclêr
- Gogledd Cymru – Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd
- Canolbarth Cymru – Carno

**Atodiad 1**

**Blaenoriaethu Gorsafoedd Rheilffordd Newydd – Adroddiad Asesu Cam 1, Mai 2017**

**Mater**

13. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r broses ar gyfer nodi cynlluniau am orsafoedd rheilffordd newydd a'r broses arfaethedig i'w hasesu a'u blaenoriaethu.

**Cefndir**

14. Er gwaethaf galwad Llywodraeth Cymru i gyllid am seilwaith rheilffyrdd gael ei ddatganoli, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ei ariannu o hyd.

15. O bryd i'w gilydd, mae Llywodraeth y DU yn rhyddhau cyllid am orsafoedd newydd drwy gyfleoedd penodol am gyllid. Mae gorsafoedd lle mae achos busnes wedi'i ddatblygu eisoes mewn sefyllfa fanteisiol pan fydd cyfleoedd o'r fath. Rydym felly wedi datblygu methodoleg i gyflymu'r gwaith datblygu angenrheidiol a datblygu cyfres o brosiectau yng Nghymru fel eu bod ar gam priodol yn eu datblygiad pan fydd cyfleoedd am gyllid yn codi gan Lywodraeth y DU ac fel y gellir eu cyflwyno i'w hystyried a bod ganddynt y cyfle gorau posibl o sicrhau cyllid.

16. Dylid nodi mai dim ond os oes ganddo achos busnes cadarn y mae unrhyw gynnig yn debygol o lwyddo i sicrhau cyllid. Drwy ymgymryd â'r gwaith hwn rydym yn gwella gallu cynigion am orsafoedd i fod mewn sefyllfa i elwa ar gyfleoedd am gyllid.

**Canfod gorsafoedd**

17. Cyflwynwyd cynigion am orsafoedd newydd o amrywiaeth o ffynonellau. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddwyd rhestr o leoliadau posibl yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTFP), 2015 ynghyd ag ymrwymiad i ddatblygu meini prawf asesu (Cyfeirnod NTFP RI10) a datblygu rhestr wedi'i blaenoriaethu gan ddefnyddio'r meini prawf hynny.

18. Nododd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol:

*RI10 - Datblygu meini prawf asesu a chan ddefnyddio'r meini prawf hynny, rhestr wedi'i blaenoriaethu o orsafoedd newydd i'w hystyried ymhellach (mewn perthynas â sicrhau cyllid gan y diwydiant rheilffordd). Bydd y gorsafoedd canlynol yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses hon:*

- *De-ddwyrain Cymru: Parc y Rhath/Heol Wedal, Heol Crwys, Gabalfa, Melin Trelái/Parc Victoria, Caerllion, Llan-wern, Gorllewin Casnewydd (ar Linell Ebwy), Crymlyn, Llaneirwg, Heol Casnewydd/Rover Way, Bracla, Sain Ffagan, Magwyr.*

- *De-orllewin Cymru: Tredemel, Sanclêr, y Cocyd, Glandŵr.*

- *Canolbarth Cymru: Bow Street, Carno, Hawau, Aber-miwl.*

- *Gogledd Cymru: Brychdyn, Gogledd Wrecsam, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd (fel dewis amgen i Orsaf Pont Penarlâg), De Wrecsam, Llangefni.*

19. Nodwyd y cynigion am orsafoedd newydd gan nifer o adroddiadau ac astudiaethau gan gynnwys cynigion o raglen Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Strategaeth Rheilffordd SWWITCH (Tachwedd 2013) ac adroddiad y North East Wales Integrated Transport Task Force (Mehefin 2013). Mae rhai lleoliadau eraill hefyd wedi cael eu nodi drwy ohebiaeth â Llywodraeth Cymru gan bartïon â diddordeb a thrwy waith ar gynllun Metro De-ddwyrain Cymru. Mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu at y gorsafoedd a nodwyd yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol i roi rhestr o 46 o orsafoedd i'w hystyried:

- De-ddwyrain Cymru: Abertyleri, Bracla, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Maes Awyr Caerdydd, Caerllion, Coedcernyw, Crymlyn, Heol Crwys, Gogledd Cwm-bach, Melin Trelái/Parc Victoria, Gabalfa, Glyn-coch, Pont Stryd Herbert, Hirwaun, Llan-wern, Loudoun Square, Magwyr, y Maendy, Mamheilad, Meisgyn, Cyffordd 34 yr M4, Nantgarw, Heol Casnewydd/Rover Way, Gorllewin Casnewydd, Parc y Rhath/Heol Wedal, Parc Sarn, Sebastopol, y Sblot, Sain Tathan, Sain Ffagan, Llaneirwg, Glan-bad, llinell newydd drwy Lantrisant, Tonysguboriau, Beddau.

- De-orllewin Cymru: Y Cocyd, Glandŵr, Sanclêr, Tredemel.

- Canolbarth Cymru: Bow Street, Carno, Hawau, Aber-miwl

- Gogledd Cymru: Brychdyn, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd, Gogledd Wrecsam, De Wrecsam, Llangefni

**Methodoleg**

20. Mae methodoleg wedi cael ei datblygu ar gyfer asesu cynigion am orsafoedd rheilffordd newydd ar y camau cynnar er mwyn nodi pa orsafoedd ddylai gael eu blaenoriaethu am waith pellach i ddechrau.

21. Mae'r fethodoleg asesu yn dilyn dull tri cham. Mae hyn yn golygu y bydd y gwaith drutach o gynhyrchu amcangyfrifon cost am orsafoedd newydd a modelu amserlenni yn cael ei wneud â ffocws. Nodir y meini prawf asesu yn Atodiad 1.

22. Mae asesiad Cam 1 yn cynnwys hidlo drwy'r gorsafoedd a nodwyd i ddechrau gan ddefnyddio meini prawf yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ac ystyried nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

23. Bydd y gorsafoedd a gafodd eu blaenoriaethu yn asesiad Cam 1 yn symud ymlaen i Gam 2. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio model asesu safonol i asesu'r

galw a ragwelir, asesiad rhagarweiniol o gryfder yr achos ariannol ac economaidd am orsaf newydd a chyngor gan Network Rail o ran y gallu i gyflawni'r cynllun. Caiff y cam hwn ei wneud gan ddefnyddio adnoddau mewnol ac efallai y bydd angen peth cymorth technegol.

24. Yna bydd y gorsafoedd a gafodd eu blaenoriaethu yng Ngham 2 yn symud ymlaen i Gam 3. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ac asesu'r blaenoriaethau pennaf, gan gynnwys Adroddiad Cam 1 WelTAG, achos busnes a phroses GRIP Network Rail ar gyfer llywodraethu prosiectau i fuddsoddi yn y rheilffyrdd.

**Asesiad Cam 1**

25. Ymgymerwyd ag asesiad Cam 1 gan ddefnyddio'r meini prawf 'achos am drafnidiaeth' (Atodiad 1). Mae gorsafoedd wedi cael eu dewis i'w datblygu ar sail ranbarthol. Y gorsafoedd rhanbarthol a nodwyd am asesiad pellach oedd y rheini a sgoriodd uchaf ar draws yr holl feini prawf 'achos am drafnidiaeth' a brofwyd.

26. Yn seiliedig ar y broses hidlo gychwynnol hon, cynigir parhau â'r gorsafoedd canlynol am asesiad pellach:

- De-ddwyrain Cymru: Melin Trelái/Parc Victoria, Llan-wern, Heol Casnewydd/Rover Way a Llaneirwg.
- De-orllewin Cymru: Y Cocyd, Glandŵr, Sanclêr
- Gogledd Cymru: Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd, Gogledd Wrecsam, De Wrecsam, Llangefni
- Canolbarth Cymru: Bow Street

**Camau Nesaf – Asesiad Cam 2**

27. Bydd y gorsafoedd a gafodd eu blaenoriaethu yn asesiad Cam 1 yn symud ymlaen i Gam 2 ac, yn dilyn hyn, cânt eu datblygu ymhellach yng Ngham 3. Disgwylir i Gam 2 gymryd oddeutu 6 mis i'w gwblhau. Unwaith y bydd y gwaith i asesu'r rhestr flaenoriaeth wedi'i gwblhau, bydd cyfle wedyn i ystyried y "casgliad" nesaf o orsafoedd rhanbarthol, os yw'n briodol.

## Atodiad 1 – Meini Prawf Asesu Cam 1

| | | | Meini Prawf |
|---|---|---|---|
| ACHOS STRATEGOL - yr achos am newid a sut mae'n cyd-fynd â pholisïau eraill | Cymru lewyrchus | ACHOS AM DRAFNIDIAETH - effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y newid | Mynediad i borthladdoedd, meysydd awyr a therfynellau rheilffordd pwysig |
| | | | Cysylltu prif ganolfannau poblogaeth a gweithgarwch economaidd |
| | | | Cysylltu ardaloedd o anweithgarwch economaidd uchel â safleoedd cyflogaeth |
| | | | Cymhareb cost a budd |
| | Cymru gydnerth | | Rhagolwg o nifer y teithwyr |
| | Cymru iachach | | Mynediad gwell at wasanaethau |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | | Lleihau cost gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus |
| | | | Gwella mynediad mewn ardaloedd lle nad oes modd teithio ar fws |
| | | | Gwella mynediad mewn ardaloedd lle nad oes llawer o wasanaethau |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | | Sicrhau cysylltedd o'r dechrau i'r diwedd |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Mynediad gwell i safleoedd twristiaeth ac atyniadau diwylliannol |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | Gwella ansawdd yr aer |
| | | | Lleihau sŵn |
| | | ACHOS ARIANNOL - ydy'r gwariant arfaethedig yn | Cost y cynllun |
| | | | Arian cyfatebol |
| | | ACHOS CYFLAWNI - ydy hi'n bosib cyflawni'r | Perchenogaeth tir |
| | | | Ardal amgylcheddol sensitif |

**Atodiad 2 – Asesiad Rhagarweiniol Network Rail**

*Ar gael fel dogfen ar wahân*

**Atodiad 3 – Rhagolygon Galw ym mhob Gorsaf**

*Ar gael fel dogfen ar wahân*

**Atodiad 4 – Asesiad Cam 2 – Methodoleg a Meini Prawf Sgorio**

| | Meini Prawf | Methodoleg Sgorio: | Ystod Sgorio | Pwysoliad |
|---|---|---|---|---|
| ACHOS AM DRAFNIDIAETH - effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y newid | **Mynediad i borthladdoedd, meysydd awyr a therfynellau rheilffordd pwysig** | **Sgôr yn seiliedig ar ba mor agos yw'r cynllun at brif borthladd, maes awyr neu derfynell rheilffordd**<br>Dros 10 milltir = sgorio fel 1 (rhywfaint o fudd i fynediad)<br>Rhwng 5 a 10 milltir = sgorio fel 2 (budd i fynediad)<br>O fewn 5 milltir = sgorio fel 3 (budd sylweddol i fynediad) | 1, 2, 3 | 2 |
| | **Cysylltu prif ganolfannau poblogaeth a gweithgarwch economaidd** | Llwybrau Cenedlaethol (prif linell) = 3, Llwybrau Rhanbarthol (gan gynnwys llinellau lliniaru) = 2, Llwybrau Lleol = 1 | 1, 2, 3 | 4 |
| | **Cysylltu ardaloedd o anweithgarwch economaidd uchel â safleoedd cyflogaeth** | Sgôr oddrychol: Sgorio 1 os ystyrir y bydd y cynllun o fudd i'r cyswllt, sgorio 0 fel arall. | 1,0 | 4 |
| | **Cymhareb cost a budd** | Sgôr oddrychol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o gostau a buddion y cynllun yn unol â'r defnydd disgwyliedig a mynediad gwell at gyflogaeth | 0, 1, 2 | 4 |
| | **Rhagolwg o nifer y teithwyr** | Uchel - 3 (dros 100,000 y flwyddyn), Canolig - 2 (50,000 - 100,000 y flwyddyn), Isel - 1 (llai na 50,000) | 1,2,3 | 6 |
| | **Mynediad gwell at wasanaethau** | Gwelliant canfyddedig - 1, dim gwelliant - 0, yn seiliedig ar amser teithio i'r ganolfan agosaf | 1,0 | 4 |
| | **Lleihau cost gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus** | Sgôr oddrychol: Sgorio 1 os yw'n lleihau'r gost, sgorio 0 fel arall. | 1,0 | 2 |
| | **Gwella mynediad mewn ardaloedd lle nad oes modd teithio ar fws** | Sgorio 1 os nad oes opsiwn arall i deithio ar fws, sgorio 0 os oes opsiwn ar gael. | 1, 0 | 3 |
| | **Gwella mynediad mewn ardaloedd lle nad oes llawer o wasanaethau** | Gwael (2), Canolig (1), Da (0). Yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. | 2,1,0 | 3 |
| | **Sicrhau cysylltedd o'r dechrau i'r diwedd** | Sgôr oddrychol: Sgorio 1 os ystyrir y bydd y cynllun o fudd i'r cyswllt, sgorio 0 fel arall. | 1,0 | 2 |

| Meini Prawf | Methodoleg Sgorio: | Ystod Sgorio | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| **Mynediad gwell i safleoedd twristiaeth ac atyniadau diwylliannol** | Sgôr oddrychol: Sgorio 1 os ystyrir y bydd y cynllun o fudd, sgorio 0 fel arall. | 0, 1, 2 | 2 |
| **Gwella ansawdd yr aer** | Mae Map MyCarto Llywodraeth Cymru yn dangos Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn 2014. Os yw'r cynllun yn un o'r ardaloedd hyn a bydd tagfeydd yn lleihau gan felly wella ansawdd yr aer dylid rhoi sgôr o 2, sgôr o 1 os yw wrth ymyl ardal rheoli ansawdd aer, sgorio 0 fel arall. | 0, 1, 2 | 3 |
| **Lleihau sŵn** | Mae Map MyCarto Llywodraeth Cymru yn dangos ardaloedd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn yn 2014. Os yw'r cynllun yn un o'r ardaloedd hyn a bydd sŵn yn lleihau dylid rhoi sgôr o 2, sgôr o 1 os yw wrth ymyl ardal o'r fath, sgorio 0 fel arall. | 0, 1, 2 | 3 |
| **Nwyon tŷ gwydr** | Yn adlewyrchu rhagolygon defnydd gan dybio y bydd llai o ddefnydd o geir. Dim newid sylweddol - 0, newid bach - 1, newid mawr - 2. | 1,2,3 | 1 |
| **Tirwedd** | Effaith ddisgwyliedig gorsaf newydd ar y dirwedd ehangach. Uchel - 1, Canolig - 2, Isel - 3 | 1,2,3 | 1 |
| **Treflun** | Effaith ddisgwyliedig gorsaf newydd ar yr ardal drefol gyfagos. Uchel - 1, Canolig - 2, Isel - 3 | 1,2,3 | 1 |
| **Yr amgylchedd hanesyddol** | Agosrwydd at ardaloedd neu adeiladau sy'n hanesyddol sensitif ac effaith arnynt. Uchel - 1, Canolig - 2, Isel - 3 | 1,2,3 | 1 |
| **Bioamrywiaeth** | Agosrwydd a gwasgariad ardaloedd bywyd gwyllt cyfagos. Uchel - 1, Canolig - 2, Isel - 3 | 1,2,3 | 1 |
| **Amgylchedd dŵr** | Agosrwydd at gyrsiau/cyrff dŵr lleol ac effaith arnynt | 1,2,3 | 1 |
| **Mynediad at gyflogaeth** | Gerllaw ardaloedd cyflogaeth | 0,1,2 | 4 |
| **Economi leol** | Yn cefnogi cynlluniau datblygu hysbys (1 Ydy, 0 Nac ydy) | 1, 0 | 4 |
| **Cynhyrchiant** | Cronfa o weithwyr wedi'i hehangu. Yn cynnig mynediad i fusnesau lleol at ddalgylchoedd ehangach o weithwyr | 0,1,2 | 4 |

| | Meini Prawf | Methodoleg Sgorio: | Ystod Sgorio | Pwysoliad |
|---|---|---|---|---|
| **ACHOS ARIANNOL - ydy'r gwariant arfaethedig yn fforddiadwy?** | **Cost y cynllun** | Cost adeiladu<br>>£30M sgorio 1<br>£15-30M sgorio 2<br>£5-15M sgorio 3<br><£5M sgorio 4 | 1, 2, 3, 4 | 7 |
| | **Arian cyfatebol** | Sgorio 1 os oes arian cyfatebol ar gael, sgorio 0 os nad yw ar gael. | 1,0 | 3 |
| **ACHOS RHEOLI - ydy hi'n bosib cyflawni'r cynllun?** | **Perchenogaeth tir** | Sgorio 1 os yw'r cynllun dan berchnogaeth NR/LIC, os nad yw neu os oes angen prynu tir, sgorio 0. | 1,0 | 4 |
| | **Ardal amgylcheddol sensitif** | Sgorio 0 os yw'r cynllun mewn SoDdGA neu ACA, sgorio 1 os nad yw. | 1,0 | 5 |
| | **Daearyddiaeth/topograffeg ffisegol** | Sgôr oddrychol: Sgorio 0 os ystyrir y bydd y cynllun yn herio topograffeg/daearyddiaeth, sgorio 1 os nad yw. | 1,0 | 5 |
| | **Cymhlethdod dylunio/adeiladu** | Sgôr oddrychol yn seiliedig ar fanylion y cynllun. Sgôr gymhleth 0, sgôr syml 1. | 1,2,3 | 4 |
| | **Cymorth gan randdeiliaid** | Cymorth lleol hysbys neu ddisgwyliedig | 1,2,3 | 4 |
| | **Angen gorchmynion cynllunio** | Sgorio 0 os oes angen gorchmynion cynllunio cymhleth (TWAO etc) ar y cynllun. Sgorio 1 os yw hawliau datblygiad a ganiateir NR yn gymwys. | 1,0 | 4 |
| | **Y Cam Cyflawni** | Pa mor barod yw'r cynllun i'w adeiladu. Dim astudiaethau rhagarweiniol - 0, Astudiaeth dichonoldeb wedi'i chynnal - 1, Achos busnes wedi'i ddatblygu - 2, Cynlluniau manwl wedi'u llunio - 3. | 0, 1, 2, 3 | 4 |